

Rhan 2 Camau Brys Iau

DYSGU AM HAWLIAU DYNOL YN YB YSGOL GYNBADD

Gweithgaredd 10

Rhan 2 Camau Brys lau parhad

**Gweler
ADNODDAU
CD ar gyfer
effaith
negeseuon**



Beth i'w wneud

Dywedwch wrth y dosbarth eu bod yn mynd i ymarfer amddiffyn hawliau dynol.

Esboniwch beth yw rhwydwaith Camau Brys lau Amnest Rhyngwladol, gan ei gwneud hi'n glir bod llythron, cardiau a chymorth yn gallu gorfodi llywodraethau a phobl ledled y byd i dalu sylw pan mae pobl yn cael eu trin yn annheg. Yn ogystal, gall cerdyn wneud rhywun i deimlo'n llai unig a rhoi gobaith iddynt. Dyma pam mae ysgrifennu llythron yn beth mor bwysig.

Rhowch gopi o *daflen sampl Camau Brys lau* i bob disgybl, gan gymryd amser i drafod y cwestiynau allweddol fel dosbarth neu mewn parau.

Gofynnwch i'r plant gyfansoddi ac ysgrifennu eu llythyr apêl eu hunan ar swyddog y llywodraeth yn El Salvador ynglŷn â'r achos hawliau dynol hwn. Defnyddiwch y canllawiau a ddarparwyd yn rhan 'Gweithredwch' y *daflen sampl Camau Brys lau*. Darparwch gychwyn brawddegau neu fframwaith ysgrifennu lle bo angen.

Dylid ysgrifennu llythron apêl yn ofalus, yn daclus ac yn gwrtais yng ngeiriau'r plentyn ei hun. Efallai y byddai'n syniad da i gael y dosbarth i ysgrifennu eu drafft eu hunain, gyda chopi terfynol yn dilyn ar ôl gwirio'r sillafu, gan efallai eu haddurno neu gynnwys darlun hefyd. Efallai bydd plant am ddweud rhywbeth amdanynt eu hunain neu eu hardal neu ryw gysylltiad â'r wlad maent yn ysgrifennu ati neu'r achos maent yn ysgrifennu amdano. Rydym yn awgrymu y dylent eu harwyddo â'u henwau cyntaf yn unig a defnyddio cyfeiriad yr ysgol fel y cyfeiriad.

Yn aml, mae'n ddefnyddiol i grwpiau o blant gymharu llythron. Llythron apêl yw'r rhain, ac felly dylai'r llythyr esbonio'n hollol eglur beth yw'r broblem a gofyn i'r swyddog wneud rhywbeth yn ei gylch. Gofynnwch am ateb bob tro.

Dylid ysgrifennu enw a chyfeiriad y swyddog yn gywir ar y gornel uchaf ar y chwith, gyda'r dyddiad oddi tano. Dylai enw'r person sy'n anfon y llythyr – sef enw,

oedran a chyfeiriad yr ysgol – ymddangos ar waelod y llythyr, ar yr ochr chwith. Dylai enw'r person sydd yn yr achos ymddangos fel pennawd i'w llythyr mewn PRIF LYTHRENNAU.

Esboniwch mai dim ond ymarferiad yw hwn ac ni fydd eu llythron yn cael eu hanfon i ffwrdd ond y byddant yn cael eu defnyddio i greu arddangosfa er mwyn dangos i eraill yr hyn y gellir ei wneud i ddiogelu hawliau dynol.

Gwaith cartref/ymestyn

- Gall myfyrwyr greu eu cardiau cyfarchion eu hunain ac anfon neges o gefnogaeth at y teulu Serrano Cruz. Yn ogystal, dylent orffen y gweithgaredd creadigol *N'ad fi'n angof*. Am fwy o fanylion, gweler *taflen sampl Camau Brys lau*. Unwaith eto, esboniwch mai ymarferiad yn unig yw hwn.
- Gallwch ddiweddarw'r dosbarth ar achos Serrano Cruz (drwy www.amnesty.org.uk/serranocruz) a rhannu *Effaith gadarnhaol negeseuon* (ar y CD).
- Gall eich dosbarth gwblhau Camau Brys lau neu Ymgrych Cardiau Cyfarchion. Anfonwch neges e-bost at student@amnesty.org.uk i gael mwy o fanylion.



Ffynhonnell: *Our World Our Rights*, Gweithgaredd 30.

© Marie-Anne Ventoura